AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

# Adroddiad Ariannol



Atodiad i Adroddiad Blynyddol y Cyngor 1998-1999

**CRYNODEB O'R DATGANIAD ARIANNOL am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 1999**

Cafodd y crynodeb hwn o'r datganiad ariannol ei dynnu o'r cyfrifon llawn ac nid yw'n cynnwys digon o wybodaeth i allu deall canlyniadau ac amgylchiadau Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn llawn. Am ragor o wybodaeth dylid troi at y cyfrifon llawn ar gyfer y cyfnod a ddaw i ben ar 31 Mawrth 1999, yn ogystal ag adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon hynny ac adroddiad blynyddol y Cyngor. Cafodd y cyfrifon llawn ar gyfer gweithgareddau'r Amgueddfa eu gosod gerbron y Senedd a'u cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau, a gellir cael copi yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at y Pennaeth Cyllid ac Archwiliadau, Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP.

**CEFNDIR CYFANSODDIADOL**

Sefydlwyd Amgueddfa Genedlaethol Cymru drwy Siarter Frenhinol ym 1907. Mae nodau'r Amgueddfa yn ymddangos oddi mewn i glawr blaen yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn elusen gofrestredig.

**AROLWG O'R FLWYDDYN A DATBLYGIADAU YN Y DYFODOL**

Dengys y cyfrifon gyfanswm adnoddau yn dod i mewn am y flwyddyn o £17,603,000 (1997/8: £15,639,000) adnoddau net a wariwyd £22,197,000 (1997/8: £18,398,000), wedi costau cyfalaf tybiannol o £3,526,000 (1997/8: £3,130,000); a symudiadau arian net wedi enillion net ar waredu asedion sefydlog a fwriedid at ddibenion elusennol, dirymiad o gost cyfalaf ac enillion ail-werthuso nas sylweddolwyd o £1,763,00 (1997/8: £7,119,000). Ar 31 Mawrth 1999, £5,540,000 oedd yr asedau net cyfredol (1997/8: £9,796,000) a chyfanswm y gweddillau a ddygwyd ymlaen oedd £59,642,000 (1997/8: £57,879,000).

**AELODAU'R CYNGOR**

Caiff Aelodau'r Cyngor eu penodi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, eu hethol gan Lys y Llywodraethwyr, a'u hethol gan y Cyngor a'r Aelodau yw Ymddiriedolwyr yr elusen. Bydd yr holl aelodau yn gwasanaethu'n wirfoddol, heb dderbyn tâl.

Dyma'r aelodau a fu'n gwasanaethu er 1 Ebrill 1998:

M.C.T. Prichard, Llywydd
Alun Thomas, Is-lywydd
G.Wyn Howells, Trysorydd
Dr Susan. J Davies
Mr A. Ellis (hyd Ionawr 1999)
Mrs E. Pritchard Jones
Dr Nancy M. Edwards
Mrs A. Carey-Evans
R. G. Thomas
M. J. M. Clarke
D. K. Jones
D. Bowen Lewis
Syr R. Hanbury-Tenison
B. K. Thomas
W. B. Cleaver

**ARCHWILWYR**

Yr oedd adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol ar ddatganiadau ariannol blynyddol Amgueddfa Genedlaethol Cymru am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 1999, yn ddiamod. Gweler atodiad Y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol ar dudalennau 6 - 9

**DATGANIAD Y RHEOLYDD A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R SENEDD**

Archwiliais y crynodeb o'r datganiad ariannol ar dudalennau 4 a 5 a baratowyd yn y ffurf ac ar y sail a ddisgrifir mewn nodyn ar dudalen 5.

**Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr a'r Archwilydd**

Cyfrifoldeb Cyngor a Chyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol Cymru yw'r crynodeb o'r datganiad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw mynegi fy marn i chi ynghylch y modd y cafodd ei baratoi, a'i gysondeb â'r datganiadau ariannol llawn a'r rhagair.

**Sail y farn**
Cynheliais fy ngwaith yn unol â'r Canllaw Archwilio "Datganiad yr archwilwyr ar y crynodeb o'r datganiad ariannol" a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

**Barn**
Yn fy marn i mae'r crynodeb o'r datganiad ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn a rhagair Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 1999 a chafodd ei baratoi'n briodol yn ôl y sail a nodir yn y nodyn ar dudalen 5.

*John Bourn*
Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol
15 Tachwedd 1999

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
23-24 Plas-y-Parc, Caerdydd CF10 3BA

**Côd Arferion Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain**

Mae'r Amgueddfa'n cydymffurfio â Chôd Arferion Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain ac yn amcanu talu anfonebau dilys o fewn 30 diwrnod o'u derbyn. Yn ystod 1998/99 cymerai 17 diwrnod ar gyfartaledd i dalu anfoneb (14 diwrnod ym 1997/98), a thalwyd 90% o anfonebau o fewn 30 diwrnod.


**Polisi ar gyflogi pobl anabl**

Mae AOCC yn gweithredu trefn recriwtio an-wahaniaethol ac yn croesawu ceisiadau oddi wrth bobl anabl. Bydd yr Amgueddfa hefyd yn gwneud ei gorau i sicrhau fod gweithwyr anabl yn cael y cyfleusterau angenrheidiol i wneud eu gwaith yn effeithiol.



DADANSODDIAD O GYFANSWM YR ADNODDAU A WARIWYD

- Casgliadau, Gofalaeth, Rheoli ac Ymchwil 33%
- Arddangosfeydd Parhaol a Thros Dro ac Addysg 29%
  *(Yn cynnwys datblygiadau pwysig)*
- Gwariant Ategol 23%
  *(Yn cynnwys Gwasanaethau Technegol a Gofalwyr)*
- Codi Arian a Chyhoeddusrwydd 10%
- Rheoli a Gweinyddu 5%





DADANSODDIAD O GYFANSWM YR ADNODDAU A DDERBYNIWYD

Grantiau Derbyniadwy

| | |
|---|---|
| Y Swyddfa Gymreig | 71% |
| Grantiau eraill, gan gynnwys cyrff eraill y llywodraeth | 12% |
| | 83% |

Incwm Mynediad a Gwerthiannau yn y siopau 7%

Incwm arall 10%




Yn cynnwys digwyddiadau corfforaethol, ffioedd cyfleusterau, taliadau am wasanaethau, grantiau ymchwil, ffioedd hawlfraint, addysg, crefftwyr yn arddangos, rhoddion, cymynroddion, nawdd, buddsoddiadau a llog y banc.

## LLYS Y LLYWODRAETHWYR ( *ar 31 Mawrth 1999* )

LLYWYDD
M.C.T. Prichard, C.B.E., D.L., B.A.

IS-LYWYDD
Alun Thomas, B.A., F.C.A.

TRYSORYDD
G. Wyn Howells A.C.I.B.

AELODAU O'R CYNGOR NAD YDYNT YN AELODAU'R LLYS FEL ARALL
Syr R. Hanbury-Tenison, K.C.V.O., Y.H., K.St.J., F.R.S.A.
B.K. Thomas, C.B.E.
Mrs A. Carey-Evans
W.B. Cleaver

PENODWYD GAN ARGLWYDD LYWYDD Y CYFRIN GYNGOR AC YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU
M.J.M. Clarke, M.A., D.L.
R.G. Thomas, OBE LLB CIMgt
Mrs Eirlys Pritchard Jones B.A.
Dr Susan J. Davies Q.A.A. Ph.D
Mr Adrian Ellis (hyd Ionawr 1999)
Dr Nancy M. Edwards Ph.D

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
T.A. Owen, M.A. (OXON), M.A. (CYMRU), F.R.S.A.

PRIFYSGOL CYMRU
Roderic Bowen, Q.C., M.A., LL.D.
Cynghorydd H.M. Morgan, M.B.E.

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Cynghorydd D. Parry Jones

AELODAU SENEDDOL CYMRU
A.E. Michael, B.A., Y.H.
Barry Jones, B.Sc.
P.P. Murphy, M.A.
R. Morgan, M.A.
Dafydd Wigley
W. Griffiths

PENODWYD GAN Y LLYS
T.G. Jones, B.A.
J.A. Davies, B.Sc., M.A., Ph.D.
D.C. Jones-Davies, O.B.E., Y.H., M.Phil., F.R.S.A.
Syr D.C. Mansel-Lewis, K.C.V.O., Y.H., B.A., K.St.J., F.R.S.A.
Capt. Gwyn D. Pari-Huws
H. Jones
D. Bowen Lewis

CYNRYCHIOLWYR Y CYNGHORAU SIR

| | |
|---|---|
| Caerdydd: | Cynghorydd A. Earle |
| Sir Gaerfyrddin: | Cynghorydd S.M. Richards |
| Ceredigion: | Cynghorydd J.G. Jenkins |
| Sir Ddinbych: | Cynghorydd R.W. Hughes |
| Gwynedd: | Cynghorydd P.G. Larsen |
| Merthyr Tudful: | Cynghorydd T.G. Davies |
| | Cynghorydd C. Jones |
| Castell Nedd: | Cynghorydd P.M. Thomas |
| Casnewydd: | Cynghorydd Mrs R. Butler |
| Abertawe: | Cynghorydd D. Phillips |
| Torfaen: | Dr. C. Grace |
| Bro Morgannwg: | Cynghorydd D.A. Eastwood |
| Wrecsam: | Cynghorydd S. Matthew |

SEFYDLIADAU YNG NGHYMRU

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Hynafiaethau Cymru: | K. Mascetti |
| Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol: | G.E. Humphreys |
| Cymdeithas Amgueddfa Genedlaethol Cymru: | Dr H. Cairns (hyd fis Tachwedd 1998) |
| Y Cyngor Amgueddfeydd yng Nghymru: | J. Pembridge |
| CULI Cymru: | Ms. A. Wellington |
| Cyngor Cymreig y CDP: | D.K. Jones, B.Sc. |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: | M.A. McLaggen |
| Cyngor Celfyddydau Cymru: | Syr Richard Lloyd Jones, K.C.B. |
| Bwrdd Croeso Cymru: | J.P. French |
| Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru Cyf: | Mrs J. Raum, B.Sc., M.I.Biol., C.Biol. |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru: | P. Loveluck |
| Cyngor Archeoleg Prydain: | F.L. Llewelyn |
| Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau yng Nghymru: | C.J. Delaney, B.Sc. |

## Y CYNGOR (*ar 31 Mawrth 1999*)

LLYWYDD
M.C.T. Prichard, C.B.E., D.L., B.A.

IS-LYWYDD
Alun Thomas, B.A., F.C.A.

TRYSORYDD
G. Wyn Howells, A.C.I.B.

PENODWYD GAN YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU
Dr Susan J. Davies
Mr A. Ellis (hyd Ionawr 1999)
Mrs E. Pritchard Jones
Dr Nancy M. Edwards

ETHOLWYD GAN LYS Y LLYWODRAETHWYR
R.G. Thomas, OBE, LLB, CIMgt
M.J.M. Clarke, M.A., D.L.
D.K. Jones, B.Sc.
D. Bowen Lewis

ETHOLWYD GAN Y CYNGOR
Syr R. Hanbury-Tenison, K.C.V.O., Y.H., K.St.J., F.R.S.A.
B.K. Thomas, C.B.E.
W.B. Cleaver, O.St.J., B.Sc., C.Eng., F.I.Min.E.
Mrs A. Carey-Evans

## CRYNODEB O DDATGANIAD Y GWEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 1999

| | Cronfeydd cyhoeddus | Cronfeydd preifat | 1998/9 Cyfanswm | 1997/8 Ailddatganwyd |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Adnoddau a dderbyniwyd** | | | | |
| Grantiau Derbyniadwy | 14,610 | 0 | **14,610** | 13,287 |
| Rhoddion a Chymynroddion | 583 | 119 | **702** | 413 |
| Incwm Buddsoddiadau | 0 | 53 | **53** | 44 |
| Incwm Mynediad a Gwerthiannau Net yn y Siopau | 1,150 | 0 | **1,150** | 1,085 |
| Incwm Arall | 946 | 142 | **1,088** | 810 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd** | **17,289** | **314** | **17,603** | 15,639 |
| **Adnoddau a wariwyd** | | | | |
| **Gwariant elusennol uniongyrchol** | | | | |
| Casglu a Chadwraeth | 5,055 | 0 | **5,055** | 4,373 |
| Ymchwil | 1,130 | 0 | **1,130** | 712 |
| Arddangos ac Addysgu | 5,477 | 0 | **5,477** | 3,935 |
| | 11,662 | 0 | **11,662** | 9,020 |
| Gwariant Ategol | 4,319 | 0 | **4,319** | 4,151 |
| Cyfanswm Gwariant Uniongyrchol | 15,981 | 0 | **15,981** | 13,171 |
| **Gwariant arall** | | | | |
| Codi arian, Cyhoeddusrwydd, Rheoli a Gweinyddu | 1,947 | 743 | **2,690** | 2,097 |
| **Adnoddau a wariwyd** | **17,928** | **743** | **18,671** | 15,268 |
| Costau Tybiannol - Cost cyfalaf | 3,526 | 0 | **3,526** | 3,130 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | **21,454** | **743** | **22,197** | 18,398 |
| **Adnoddau net a dderbyniwyd / (adnoddau a wariwyd)** | **(4,165)** | **(429)** | **(4,594)** | (2,759) |
| Colledion net wrth werthu asesau sefydlog a fwriadwyd ar gyfer Defnydd Elusennol | (69) | 0 | **(69)** | 4,995 |
| Gwrthdroi Cost Cyfalaf | 3,526 | 0 | **3,526** | 3,130 |
| Enillion nas Sylweddolwyd pan Ailbrisiwyd | 2,929 | (29) | **2,900** | 1,753 |
| **Symudiad net yn yr adnoddau** | **2,221** | **(458)** | **1,763** | 7,119 |
| **Tâl y Cyfarwyddwr** | | | **73,000** | 70,000 |

**CRYNODEB O'R FANTOLEN AR 31 MAWRTH 1999**

| | 1999 | 1998 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Asedau sefydlog | **54,343** | 48,397 |
| Asedau Cyfredol | **6,141** | 10,426 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | **(601)** | (630) |
| Asedau cyfredol net | **5,540** | 9,796 |
| Cyfanswm yr asedau wedi tynnu'r dyledion cyfredol | **59,883** | 58,193 |
| Darpariaethau ar gyfer costau cynllun diswyddo | **(241)** | (314) |
| **Asedion net** | **59,642** | **57,879** |
| Cronfeydd cyhoeddus | **57,900** | 55,679 |
| Cronfeydd preifat | **1,742** | 2,200 |
| **Cyfanswm cronfeydd** | **59,642** | **57,879** |



**CRYNODEB O'R DATGANIAD LLIF ARIAN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 1999**

| | 1998/9 | 1997/8 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Arian net a dderbyniwyd/(dalwyd allan) o weithgareddau'r busnes | **(164)** | 601 |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol | **(910)** | (864) |
| Rheoli adnoddau rhyddion | **382** | (147) |
| (Gostyngiad) mewn arian | **(692)** | (410) |

**NODIADAU I'R CRYNODEB O DDATGANIADAU ARIANNOL**

**Sail Paratoi**

Tynnwyd y crynodeb hwn o'r datganiad ariannol o'r cyfrifon llawn a baratowyd yn unol â Deddf Elusennau 1993 a gymeradwywyd gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar 23 Gorffennaf 1999, a'u llofnodi ar ran y Cyngor ar 31 Awst 1999.

Anna Southall
Cyfarwyddwr a Swyddog Cyfrifo
7 Tachwedd 1999

G. Wyn Howells
Trysorydd
7 Tachwedd 1999

## Amgueddfa Genedlaethol Cymru: Cyfrifon 1998-99
## Adroddiad gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol

**Cyflwyniad**

1. Sefydlwyd Amgueddfa Genedlaethol Cymru (yr Amgueddfa) drwy Siarter Frenhinol ym 1907 ac mae'n elusen gofrestredig, sy'n masnachu dan yr enw Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Hyd 1 Gorffennaf 1999 roedd yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol dan nawdd y Swyddfa Gymreig. Ar y dyddiad hwnnw trosglwyddwyd y cyfrifoldeb hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

2. O dan Adran 9 (8) o'r Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, arnaf i y mae'r cyfrifoldeb am archwilio cyfrifon blynyddol Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Trosglwyddir y cyfrifoldeb hwn i Archwilydd Cyffredinol Cymru yn effeithiol o flwyddyn gyfrifon 1999 - 2000 ymlaen. Rhoddir y cyfrifon ar gyfer 1999-2000 a blynyddoedd wedi hynny ger bron y Cynulliad Cenedlaethol.

3. Yn yr Adroddiad hwn, yr wyf yn nodi amgylchiadau a manylion taliad afreolaidd a wnaed gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol 1998-99 a dylanwad hyn ar fy marn fel archwiliwr ar y cyfrifon.

**Fframwaith Rheoliadol**
**Amgueddfa Genedlaethol Cymru**

4. Nodir y pwerau a roddwyd i Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ei Siarter Frenhinol. Yr oedd y Swyddfa Gymreig (a Chynulliad Cenedlaethol Cymru bellach) yn gweithredu rheolaeth noddi dros yr Amgueddfa. Mae manylion am y trefniadau yng nghyswllt y nawdd hwn i'w cael mewn Datganiad Rheolaeth, sy'n cynnwys Memorandwm Ariannol.

5. Mae'r Datganiad Rheolaeth, a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Ionawr 1997, yn diffinio'r fframwaith y mae'n ofynnol i'r Amgueddfa weithredu oddi fewn iddo. Mae'r Memorandwm Ariannol yn nodi o dan ba delerau ac amodau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhyddhau arian at weithredu'r swyddogaethau a'r amcanion a nodir yn y Siarter Frenhinol. Mae'r Memorandwm Ariannol, yn benodol, yn manylu ar gyfrifoldebau ariannol yr Amgueddfa, gan nodi ar ba achlysuron y mae gofyn rhoi gwybod i'r Swyddfa Gymreig, neu ymgynghori â hi, neu geisio cymeradwyaeth ganddi cyn dechrau ar weithgareddau neu wario arian. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau penodol at wariant anarferol, gwahanol neu ddadleuol.

6. Mabwysiadwyd fersiynau mis Ionawr 1997 o'r Datganiad Rheolaeth a'r Memorandwm Ariannol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond maent yn y broses o gael eu hadolygu a'u diwygio.

**Ymadawiad y Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Rheoli Adnoddau)**

7. Ym mis Awst 1998, cyflwynwyd Mr Colin Ford, a oedd bryd hynny yn Gyfarwyddwr ar Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac yn Swyddog Cyfrifo iddi, ag adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol ar faterion oedd yn ymwneud â Mr Tim Arnold, a oedd bryd hynny yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol (Rheoli Adnoddau). Mae'r swydd uchel hon yn cyfateb i swydd Prif Swyddog Cyllid adran o'r llywodraeth, ac mae'n dwyn yr un cyfrifoldeb dros gynghori'r Swyddog Cyfrifo ar faterion o reoleidd-dra a phriodoldeb. Roedd y materion a godwyd yn yr adroddiad yn ymwneud ag amrywiol agweddau ar arddull reoli Mr Arnold dros gyfnod hir. Nid oeddent yn ymwneud ag unrhyw awgrym o amhriodoldeb neu afreoleidd-dra ariannol.

8. Mewn cyfarfod anffurfiol ar 24 Awst 1998, dywedodd Mr Ford wrth Mr Arnold iddo dderbyn honiadau o gamreoli a fyddai yn ei dyb ef, o'u profi, yn ddigon difrifol i deilyngu cymryd camau disgyblaethol. Dywedodd Mr Arnold nad oedd ef yn ymwybodol o unrhyw faterion yn ymwneud â chamreoli posibl ond roedd yn gwbl barod i wynebu camau disgyblaethol ac yn hyderus y câi ei ddifeio. Awgrymodd Mr Ford, yn wyneb natur a difrifoldeb posibl yr honiadau, y byddai er lles i'r Amgueddfa a Mr Arnold hefyd i'w wahardd rhag ei waith am gyfnod rhag ofn. Gadawodd Mr Arnold yr Amgueddfa yn union wedi'r cyfarfod hwn. Er mwyn diogelu niwtraliaeth sefyllfa Mr Arnold yn ystod y cyfnod cyn ymchwilio i'r honiadau, dywedwyd wrth staff yr Amgueddfa ei fod yn absennol oherwydd salwch.

9. Mewn ail gyfarfod anffurfiol gyda Mr Arnold ar 26 Awst 1998, lle'r oedd cyfreithwyr yr Amgueddfa'n bresennol, dywedodd Mr Ford y byddai angen cynnal ymchwiliad llawn a thrylwyr i'r honiadau. Ni thrafodwyd union fanylion yr honiadau yn y naill gyfarfod na'r llall, ond cytunwyd y dylai Mr Arnold geisio cyngor cyfreithiol.

10. Cynghorwyd Mr Ford gan gyfreithwyr yr Amgueddfa mai buddiol fyddai ymchwilio i'r posibilrwydd o ddod i gytundeb gyda Mr Arnold cyn dechrau ar ymchwiliad hir a fyddai'n digwydd yn ystod y cyfnod o wahardd Mr Arnold rhag ei waith ar gyflog llawn. Ar sail trafodaethau 'diragfarn' rhwng cyfreithwyr ar ran

yr Amgueddfa a chyfreithwyr ar ran Mr Arnold, bu'r Amgueddfa yn ystyried terfynu ei gytundeb gwaith. Ar ôl ystyried amryw o ddewisiadau gan gynnwys ymddeoliad cynnar, diswyddiad a iawndal yn lle unrhyw gais am ddiswyddo annheg, daeth y ddwy ochr at gytundeb wedi'i negodi.

11. Dywedodd Mr Arnold wrth fy staff iddo ddal i bwyso ar yr Amgueddfa am eglurhad ar yr honiadau a wnaed. Ychwanegodd i'r ffaith i'r Amgueddfa wrthod ymateb i'w gais gael cryn ddylanwad ar ei benderfyniad i dderbyn terfyniad ei gytundeb gwaith drwy gytundeb o'r ddau du.

12. Ar 5 Hydref 1998, arwyddwyd 'Cytundeb Cyfaddawdol' ffurfiol rhwng Mr Arnold ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Roedd y Cytundeb hwn, a luniwyd gan gyfreithwyr yr Amgueddfa, yn cynnwys y telerau a ganlyn:

* byddai cyflogaeth Mr Arnold yn terfynu'n ffurfiol ar 30 Medi 1998 trwy gytundeb o'r ddau du;

* byddai Mr Arnold yn derbyn £30,000 gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn iawndal am golli ei swydd. Byddai hefyd yn derbyn cyfraniad o £1,450 a TAW tuag at ei gostau cyfreithiol. Roedd hyn gyfwerth â'r gost i'r Amgueddfa o chwe mis o dâl (£31,700 fyddai ei hawl ar dâl yn lle rhybudd ymadael ynghyd â thri mis). Trwy gyd-ddigwyddiad, £30,000 yw'r uchafswm a ganiateir cyn codi treth ar daliad o'r fath;

* roedd y Cytundeb yn setliad llawn a therfynol ar unrhyw hawliau a allai fod gan Mr Arnold yn erbyn yr Amgueddfa;

* ymgymerodd Mr Arnold 'i beidio â datgelu telerau'r Cytundeb hwn neu unrhyw fanylion yng nghyswllt yr anghydfod a gymodwyd trwy'r Cytundeb hwn i drydydd person ar wahân i'w ymgynghorydd cyfreithiol a'i deulu agosaf neu fel y bo'n ofynnol yn ôl y gyfraith.' Nid oedd y cymal cyfrinachedd hwn yn rhwymo'r Amgueddfa; a

* byddai'r Amgueddfa, yn ôl y gofyn, yn darparu geirda i Mr Arnold gan ddefnyddio'r ffurf ar eiriau a nodwyd mewn atodiad i'r Cytundeb. Ni roddir unrhyw reswm dros ei ymadawiad.

13. Ar 8 Hydref 1998, anfonodd Mr Ford femorandwm at Reolwr Ariannol yr Amgueddfa yn gofyn iddo baratoi siec am £30,000 yn daladwy i Mr Arnold. Yn y memo hwn, dywedodd Mr Ford 'Yr wyf wedi rhoi gwybod i'r Swyddfa Gymreig am y taliad hwn'. Cododd y Rheolwr Ariannol siec a'i hanfon at Mr Ford i'w llofnodi, ynghyd â memo a nodai, 'Sylwaf i chi roi gwybod i'r Swyddfa Gymreig ac rwy'n cymryd i chi dderbyn eu caniatâd ysgrifenedig hwy (mae'n rhaid bod hyn yn ofynnol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol)'. Dywedodd Mr Ford wrth fy staff innau nad yw'n cofio gweld y memo hwn ac nid oes unrhyw gofnod iddo wneud. Ar 9 Hydref 1998, derbyniodd Mr Arnold y siec am £30,000, ac, yn sgîl anfoneb gan ei ymgynghorwyr cyfreithiol, talodd yr Amgueddfa hefyd ei ffioedd cyfreithiol o £1,730 (gan gynnwys TAW).

**Canlyniadau'r taliad**

14. Yn ystod y gwaith o archwilio cyfrifon 1998-99 Amgueddfa Genedlaethol Cymru, astudiodd fy staff y ddogfennaeth yng nghyswllt yr achos hwn sydd ym meddiant yr Amgueddfa a'i chyfreithwyr. Daethant â'r achos at sylw Ms Anna Southall, a olynodd Mr Ford yn Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar 1 Tachwedd 1998. Buont hefyd yn cwrdd ag uwch swyddogion o fewn yr adran yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n noddi'r Amgueddfa.

15. Dywedodd Ms Southall wrth fy staff i i'r materion hyn ddod i ben cyn iddi hi ddod i'w swydd. Ymgynghorwyd â hi ar y materion a godwyd yng nghyswllt arddull reoli Mr Arnold, ac roedd ei rhagflaenydd wedi sôn wrthi am y taliadau i Mr Arnold, ac mewn termau cyffredinol am amgylchiadau'r taliadau. A sôn yn benodol, nid oedd wedi gweld y Cytundeb Cyfaddawdol ei hun. Cadarnhaodd i Mr Ford ei sicrhau y dilynwyd pob cam o'r drefn angenrheidiol ac y cafwyd yr awdurdod priodol. Roedd Ms Southall hefyd wedi cytuno ar delerau'r geirda a ddarparodd yr Amgueddfa at ddefnydd Mr Arnold.

16. Dywedodd Llywydd, Is-lywydd a Thrysorydd yr Amgueddfa wrth fy staff i yr ymgynghorwyd mewn modd priodol â hwy ac â Chadeirydd Pwyllgor Personél yr Amgueddfa ar delerau'r Cytundeb Cyfaddawdol. Dywedasant eu bod, wrth gytuno â'r telerau hyn, yn gweithredu ar sail y sicrwydd a gawsant gan y cyn-Gyfarwyddwr y derbyniwyd pob awdurdod priodol. Dywedasant wrth fy staff iddynt weithredu yn ddidwyll ac yn y gred bod yr ateb hwn yn ariannol ddarbodus a'i fod er lles yr Amgueddfa.

17. Llwyddodd fy staff i sicrhau nad oedd y cyn-Gyfarwyddwr wedi ceisio caniatâd ar lafar nac ar bapur gan y Swyddfa Gymreig, na chynt nac wedi cyflawni'r Cytundeb Cyfaddawdol gyda Mr Arnold. Cadarnhaodd swyddogion yn yr adran atebol i'm staff na wyddent o gwbl am fodolaeth

y Cytundeb nac am y taliadau a wnaed i Mr Arnold. Dywedasant iddynt gael ar ddeall ar lafar gan Mr Ford y gwnaed honiadau o gamreoli staff yn erbyn Tim Arnold: am ei fwriad i ymddiswyddo; am drafodaethau a oedd yn digwydd am derfynu ei gytundeb; a chawsant wybod wedyn iddo adael cyflogaeth yr Amgueddfa.

18. Cyflwynwyd yr hysbysiad ysgrifenedig hwn gan Mr Ford ar 7 Hydref 1998. Dywedai yn ei lythyr:

'Yn ystod ei absenoldeb diweddar ar gyfnod o salwch, cymerodd Tim Arnold y cyfle i ystyried datblygiad ei yrfa i'r dyfodol, ac yntau wedi bod yn gweithio [yn yr Amgueddfa] ers dros bedair blynedd ar ddeg. Daeth i'r casgliad y byddai'n briodol ar yr adeg hon i symud ac y mae felly wedi ymddiswyddo o'i swydd fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Rheoli Adnoddau). Trwy gyd-gytundeb, dechreuodd cyfnod ei ymddiswyddiad ar 30 Medi 1998. Rwy'n sicr y byddwch chithau, yn ymuno â minnau er mwyn dymuno'n dda i Tim yn ei yrfa i'r dyfodol.'
Ychwanegwyd troednodyn mewn llawysgrifen gan Mr Ford, a ddywedai, “Edrychais - nid oeddech wedi derbyn un o’r rhain. Ymddiheuriadau.”

Dywedodd Mr Ford wrth fy staff i fod y geiriad hwn, yn ei farn ef, yn dangos i gynnwys y llythyr gael eu trafod o flaen llaw rhyngddo ef ac o leiaf un o swyddogion y Swyddfa Gymreig. Dywedodd ei fod yn credu iddo roi gwybod i swyddogion y Swyddfa Gymreig am y taliad a oedd i'w wneud i Mr Arnold ac nid oeddent wedi ei gynghori ef y byddai gofyn cael caniatâd ysgrifenedig.

19. Yn fy marn i, mae'r taliadau a wnaed i Mr Arnold yn syrthio o fewn categori Cyfrifo'r Llywodraeth o 'wariant anarferol a dadleuol'. Yn ôl paragraff 4.9 o Femorandwm Ariannol yr Amgueddfa, mae gofyn cael caniatâd o flaen llaw gan y Swyddfa Gymreig ar gyfer taliadau o'r fath. Ni cheisiwyd hwn ar y pryd; nis cafwyd chwaith, gan wneud y gwariant yn un afreolaidd. Dywedodd Mr Ford wrth fy staff i ei fod yn cydnabod bodolaeth y paragraff hwn ac y byddai, o dan amgylchiadau arferol, yn dibynnu ar Mr Arnold i ddod ag ef at ei sylw. Dywedodd hefyd nad oedd yn ystyried bod y taliad yn un 'anarferol a dadleuol'.

20. Yn ogystal, mae Atodiad D, paragraff 4 o Ddatganiad Rheolaeth yr Amgueddfa yn dweud y bydd 'telerau ac amodau.... unrhyw daliadau iawndal yng nghyswllt diswyddo neu unrhyw ffurf arall ar ymddeoliad gorfodol ... yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyda chydsyniad y Trysorlys'. Er nad yw hyn yn cyfeirio'n benodol at amgylchiadau'r achos hwn, mae canllawiau mwy penodol i'w cael mewn llythyr cyffredinol a ddosbarthwyd gan y Trysorlys ar 4 Ebrill 1994 (DAO (Gen) 3/94). Pwrpas y llythyr hwn oedd sicrhau bod pob Swyddog Cyfrifo yn ymwybodol o'r argymhellion a wnaed yn 8fed Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (Gweinyddu Busnes Cyhoeddus yn Gywir). Pwysleisiodd y llythyr bod y Trysorlys yn cadarnhau casgliadau'r Pwyllgor, a osodwyd ar ffurf tabl ac a oedd yn cynnwys y canlynol:

| *Y methiant a nodwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus* | *Argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus* |
|---|---|
| Taliadau *ex gratia* a wneir heb awdurdod adeg terfynu cyflogaeth, a hynny weithiau o dan amgylchiadau lle y gallai camau disgyblaethol fod yn fwy priodol. | Yn ogystal â cheisio awdurdod gan adrannau noddi ar gyfer unrhyw staff sy'n gweithredu y tu hwnt i'w pwerau dirprwyedig, dylai cyrff cyhoeddus sicrhau y gellir cyfiawnhau'n llawn achosion arbennig o'r fath. |

Allan o: DAO (Gen) 3/94 - 'Checklist of points in the PAC's 8th Report on the Proper Conduct of Public Business'

21. Rwy’n ystyried pe bai staff yr Amgueddfa yn ymwybodol na chafwyd y caniatâd ysgrifenedig priodol, a bod y taliad drwy hynny yn un afreolaidd, dylid fod wedi dod â'r mater at sylw Ms Southall ar adeg ei phenodi. Y rheswm dros hyn yw bod ei chyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifo, wrth arwyddo'r cyfrifon blynyddol am 1998-99, yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol gyfan, ac nid y cyfnod ers ei phenodiad yn unig. A hithau'n Swyddog Cyfrifo, mae gofyn iddi anfon 'Llythyr Cyflwyno' ataf i gyda'r cyfrifon blynyddol, sy'n cynnwys datganiad sy'n nodi nad oedd yna unrhyw daliadau anarferol, dadleuol nac afreolaidd yn y cyfrifon. Mae'n ofynnol hefyd i'r Swyddog Cyfrifo arwyddo'r Datganiad ar Reolaeth Ariannol Fewnol sydd, ymhlith materion eraill, yn nodi'r trefniadau sydd gan yr Amgueddfa rhag i wariant afreolaidd ddigwydd.

**Camau a gymerwyd gan y Cyfarwyddwr newydd i gywiro'r sefyllfa**

22. Wedi iddi gael gwybod gan fy staff i am fodolaeth y Cytundeb Cyfaddawdol ac am y taliadau i Mr Arnold, gweithredodd Ms Southall yn brydlon ac yn briodol drwy ysgrifennu ar 9 Awst 1999 i swyddogion yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan nodi'r rhesymau dros wneud y taliadau a chan ofyn am ganiatâd adolygol.

23. Dyma'r prif ddadleuon a grybwyllwyd gan y Cyfarwyddwr i gefnogi'r cais hwn:

* bod 'gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'i Chyfarwyddwr ymrwymiadau eglur fel cyflogwr rhesymol,' yn arbennig gan i Mr Arnold gael ei gyflogi gan yr Amgueddfa am ryw 14 mlynedd;

* bod 'gan y Cyfarwyddwr, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifo, ymrwymiad eglur i sicrhau y bydd pa bynnag drefniant y cytunir arno yn rhoi gwerth ei harian i Amgueddfa Genedlaethol Cymru, ac felly'r trethdalwr'; a

* 'bod gofyn i'r Cyfarwyddwr ddwyn mewn cof y niwed y gellid ei wneud i sefydliad fel Amgueddfa Genedlaethol Cymru gan gyhoeddusrwydd anffafriol'.

24. Ar 7 Hydref 1999 dywedodd Mr David Richards, Prif Swyddog Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth Ms Southall nad oedd ei Swyddog Cyfrifo, a oedd wedi ystyried yn ofalus amgylchiadau'r taliadau, yn ystyried y byddai'n briodol i roi caniatâd adolygol ar gyfer y gwariant. Yn ei lythyr, mae Mr Richards yn nodi'r rhesymau y tu ôl i'w benderfyniad:

* mae'n edrych yn debyg i'r digwyddiadau a brysurodd ymadawiad Mr Arnold ddigwydd oherwydd nad aeth [yr Amgueddfa] i'r afael â'r broblem o dan y drefn ddisgyblaethol arferol. Pe bai [yr Amgueddfa] wedi gwneud hynny, mae'n bosibl y buasai'r canlyniad yn wahanol;

* 'ni allasem dderbyn unrhyw gytundeb a oedd yn cynnwys cymal ar gyfrinachedd;

* 'nid yw'r ddadl fod y taliad arbennig o £30,000 yn arbed gwariant pellach yn egwyddor a dderbynnir yn gyffredinol yn y sector cyhoeddus lle y gosodir blaenoriaeth amlycach ar fabwysiadu safonau a threfnyddiaeth gywir;

* 'ni all y dymuniad i amddiffyn yr Amgueddfa rhag cyhoeddusrwydd - ac yn arbennig felly feirniadaeth gyhoeddus ar y modd y trafodwyd achos Mr Arnold dros gyfnod hir - fod yn sail dros beidio â chymryd camau disgyblaethol, neu dros wneud taliad arbennig o goffrau cyhoeddus i unrhyw unigolyn;

* 'mae'r dogfennau rheoli sy'n rheoli perthynas y Swyddfa Gymreig gyda'r [Amgueddfa] yn datgan yn gwbl eglur bod ymrwymiad ar yr [Amgueddfa] i fynnu awdurdod ffurfiol a phenodol yr Adran, yn ysgrifenedig, cyn gwneud taliad mewn achos o'r math hwn. Mae - ac yr oedd - y cyfyngiadau ar awdurdod dirprwyedig y Swyddog Cyfrifo o ran gwneud unrhyw daliad yn eglur.'

25. Yng ngoleuni'r ymateb hwn gan Brif Swyddog Ariannol y Cynulliad, pwysleisiodd Ms Southall i'm staff i fod yr aelodau hynny o staff yr Amgueddfa a'r aelodau hynny o'r Cyngor a fu'n ymwneud â'r mater wedi ymddwyn yn ddidwyll ac yn y gred y byddai'r cytundeb a gynigid yn ddarbodus yn ariannol ac er lles yr Amgueddfa. Nododd hefyd mai un o broblemau arbennig yr achos hwn oedd i Mr Ford ystyried cymryd camau disgyblaethol yn erbyn yr union swyddog oedd yn gyfrifol am ei gynghori ef ar faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra a phriodoldeb. Dywedodd Mr Ford wrth fy staff innau hefyd iddo ef, a staff a swyddogion eraill yr Amgueddfa a fu'n ymwneud â'r mater hwn yn ei farn ef weithredu'n ddidwyll trwy gydol yr achos hwn.

**Yr Effaith ar fy Marn i ar yr Archwiliad**

26. Yr wyf wedi rhoi ystyriaeth fanwl i natur ac amgylchiadau'r gwariant hwn ar ran Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Gan na sicrhawyd yr awdurdod cywir dros y gwariant ar yr adeg y negodwyd y Cytundeb Cyfaddawdol gyda Mr Arnold, ac yng ngoleuni'r ffaith i Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrthod cymeradwyo'r gwariant yn adolygol, deuthum i'r casgliad fod y taliadau i Mr Arnold a'i gyfreithwyr yn afreolaidd. Torrodd Amgueddfa Genedlaethol Cymru amodau ei Memorandwm Ariannol a'i Datganiad Rheolaeth wrth beidio â cheisio a sicrhau cymeradwyaeth i'r taliadau cyn negodi'r Cynllun Cyfaddawdol. Nodaf hefyd na wnaeth yr Amgueddfa gydymffurfio gyda'r cyfarwyddiadau a argymhellir yn DAO (Gen) 3/94 ac a nodwyd ym mharagraff 20 uchod.

27. Mae cyfrifon 1998-99 Amgueddfa Genedlaethol Cymru felly'n cynnwys cyfanswm o £31,730 o wariant afreolaidd. Yng nghyd-destun cyffredinol cyfrifon yr Amgueddfa, nid wyf yn ystyried bod y swm hwn yn faterol. Yr wyf yn fodlon i'r taliadau i Mr Arnold gael eu cynnwys yn gywir o fewn y graddfeydd cyflog ar gyfer staff uwch a ddatgelwyd yn Nodyn 6(c) i'r datganiadau ariannol. Felly mae fy marn i fel archwiliwr ar gyfrifon 1998-99 Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ddiamod.

*John Bourn*
Y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol
15 Tachwedd 1999

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
23-24 Plas-y-Parc
Caerdydd CF10 3BA